CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener yr 21ain o Fawrth 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan, Pennal.**

Presennol; Cyng. James Brunton, Sion Evans, William Rees, Aled Rees, Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd y Cyng James Brunton.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Rhys Parry a Meirion Roberts.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Chwefror ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng Aled Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** Cadarnhawyd fod materion a godwyd yng nghywllt llwybrau yn yr ardal yn cael sylw Cyngor Gwyedd. Nodwyd yr angen i gael drych ir briffordd o gyfeiriad Llyn Bwtri, a gofynnwyd i'r Clerc edrych i mewn i'r opsiynau.
   Yng nghyswllt problem dwr o flaen Ty Alys, roedd cynrychiolydd o'r Adran Briffyrdd wedi galw i awgrymu symud 'downpipe'n y ty i ochr y capel. Byddai rhaid ystyried hyn eto, a nodwyd fod yn amlwg mai y ffordd sydd wedi ei ail-tharmacio yw'r broblem.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad. Gyda'r fynwent newydd, cadarnhwyd fod y gwaith wedi ei gwbwlhau, a diolchwyd yn arbennig i Cyng Rhys Parry a Cyng William Rees am wneud y gwaith a darparu y deunyddiau.
   **c)** **Difibrillators** – Roedd Cyng Cyng Aled Rees wedi cael golwg ar y ddau di-fib, sef ger y toiledau a ger Cwrt. Roedd angen batteries yn un Cwrt, a chytunwyd I hyn. Cytunwyd I'r ddau gael eu cofrestru fel bod Aled yn ymdrin a hwy. Diolchwyd yn fawr I Aled.
   **d)** **Menter y Glan** – yr angen am ddau gamera CCTV – nid oedd diweddaraid gan Cyng Meirion Roberts.
   **e)** **Bwrdd Gwybodaeth ger yr arhosfan bws** – roedd hwn wedi ei osod a diolchwyd i'r Cyng Meirion Roberts.
   f) **Baw cwn ar y Marian –** nid oedd diweddariad**.**
   g) **Archwiliad Blynyddol asedau'r Cyngor** – rhestrwyd yr asedau, a bod y cyfan wedi eu harchwilio.
   h) **Llythyr Liz Saville Roberts AS** – ynglyn a credyd pensiwn/taliad tanwydd ayyb. Cadarnhawyd y gellir gofyn i Age Cymru wneud y gwaith o hyrwyddo hyn ar fore Mercher y 23ain o Ebrill, a byddai'r Clerc yn trefnu. Byddai angen posteri oddiamgylch y pentref.

**5. Materion Cynllunio**

**NP5/75/46B –** Maes Parcio Tanycoed, Esgarigeiliog

Newid defnydd tir i ganiatau lleoli un gwerthwr bwyd a diod symudol

*Yn dilyn trafodaeth, cadarnhwyd nad oedd y cais o fewn ffiniau Cyngor Pennal.*

**…………………………………………………..**

**Nodwyd Ganllawiau i Gynghorau Cymuned gan Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol**, a phwysigrwydd gyda cheisiadau cynllunio i ymateb 'Cefnogol' (gyda rhesymau) neu 'Gwrthod' (gyda rhesymau) neu Dim sylwadau/niwtral.

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (21.03.25), sef Cyfri Cyfredol £12,021.56, Cyfri Cadw £2680.08.

b) Anfonebau/taliadau – ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Wil Rees, cytunwyd i dalu y canlynol;

**Cyngor Gwynedd** - Torri gwair comin Marian/ cae chwarae - £899.64

**Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc** £499.99 HMRC £125 ynghyd a chostau am y flwyddyn 2024-25 o £500 fel y cytunwyd

**EW Owen a'i Chwmni** – gwaith PAYE - £228.00

**HG Web Designs** – cynnal a chadw gwefan y Cyngor - £300.

**Aelodaeth Un Llais Cymru** 2025-26 - £106

c) Roedd ceisiadau am arian i law, a phenderfynwyd ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng Sion Evans fel a ganlyn;

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf, ar ol cael gwybodaeth am yr Adolygiad Barnwrol.
- SSFA – Elusen y Lluoedd Arfog – penderfynnu peidio cyfrannu
- **Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd** - £100. (hefyd cytunwyd gyfrannu £200 i Glwb Ffermwyr Ieuianc Bryncrug pan fyddai cais i law)
- **Ysgol Pennal** - £300
- **Apel GISDA 40** – penderfynnu peidio cyfrannu.

**7. Gohebiaeth**

- Nid oedd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru i law. Cadarnhwyd fod cynllun hyfforddiant y Cyngor Cymuned ar y wefan.
- Nodwyd gohebiaeth pellach gan y Parc Cenedlaethol yn cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 o'r 1af Mehefin 2025.
- Nodwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- Nodwyd Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

- Cadarnhawyd benodiad Archwilydd Mewnol, sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd ar gyfer cyfrifon 2024-25.

8**. Unrhyw fater arall.**

- Roedd gwteri wedi blocio ar y ffordd o Cwrti gyfeiriad Cwmffernol, ac o Tower Road i fynny am Gyllellog.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL Nos Wener 16eg o Fai 2025 yn y Ganolfan, Pennal am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.10pm.